

Addasiadau i Lefel 3
Tystysgrifau a Diplomâu
Cymhwysol yn haf 2021

Llyfryn Gwybodaeth Bynciau

Addasiadau i gymwysterau CBAC Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol i'w hasesu yn haf 2020/21

Rhagarweiniad

Collwyd amser addysgu, dysgu ac asesu yn ystod Gwanwyn a Haf 2020 oherwydd y pandemig coronafeirws (COVID-19). Parhaodd yr amharu yn ystod tymor yr hydref hefyd oherwydd cyfnodau clo lleol, unigolion a dosbarthiadau cyfan mewn cwarantîn ac amgylchiadau eraill wnaeth olygu nad oedd modd i ddysgwyr fynd i'r canolfannau fel arfer.

Mae effaith yr amhariad hwn yn amrywio ar draws canolfannau, gan ddibynnu ar ba bynnag gymwysterau a gynigir ganddynt a sut maen nhw'n mynd ati i addysgu a dysgu. Effeithiwyd ar rai canolfannau a phynciau yn fwy nag eraill.

Bydd yr amser addysgu'n fwy cywasgedig mewn llawer o gyrsgiau a bydd angen cynyddu'r amser addysgu sydd ar gael. Lle mae amhariad wedi bod ar amser addysgu a dysgu dysgwyr ers mis Mawrth, efallai y bydd yn rhaid i ganolfannau gymryd camau i gynorthwyo dysgwyr i 'ddal i fyny' ar ôl treulio amser i ffwrdd o'u canolfan. Gall amharu lleol a gofynion ieched y cyhoedd, megis defnyddio mesurau ymbellhau cymdeithasol, effeithio ar sut y mae asesuadau'n digwydd.

Mae angen addasu rhai asesuadau mewn rhai pynciau i wneud iawn am yr amharu ar addysgu, dysgu ac asesu a/neu i ganiatáu effeithiau unrhyw ofynion ymbellhau cymdeithasol neu ganllawiau eraill yn ymwneud ag ieched y cyhoedd. Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried pa drefniadau lliniaru y gallai fod eu hangen yn haf 2021. Yn rhan o hyn ymgynghorwyd â'n canolfannau ynghylch amrediad o gynigion lliniaru arfaethedig.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r addasiadau i'n cyfres o gymwysterau Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol i'w hasesu yn haf 2021. Mae'n disodli'r ddogfen 'Addasiadau arfaethedig i Gymwysterau Galwedigaethol Lefel 3 CBAC' a gyhoeddwyd ar Wefan Ddiogel CBAC i'w gweld gan ganolfannau ym mis Hydref 2020.

Datblygwyd yr addasiadau hyn i gyfateb i'r egwyddorion a gyhoeddwyd yn y ddogfen Extended Extraordinary regulatory framework: Vocational and Technical Qualifications, COVID-19 Conditions and Requirements (ExtVTQCov [Framework](#)) a [gyhoeddwyd gan Ofqual a Cymwysterau Cymru](#).

Bu angen i ni hefyd, yn achos y cymwysterau hynny sydd wedi'u cynnwys ar dablau perfformiad ysgolion yn Lloegr, sicrhau bod yr addasiadau'n bodloni'r gofynion ychwanegol a nodwyd gan yr Adran Addysg (AA). Oherwydd hyn, nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i nodweddion canlynol ein cymwysterau Tystysgrif a Diploma Cymhwysol:

- cydbwysu'r asesu mewnol ac allanol
- gofynion asesu synoptig
- yr oriau dysgu dan arweiniad sydd wedi'u neilltuo i'r cymhwyster.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy gymhwyster Diploma Cymhwysol yn haf 2020

Mae gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy gymhwyster Diploma Cymhwysol yn 2020 ac a gofrestrwyd ar gyfer yr unedau Tystysgrif yn Haf 2020 yr hawl i gael canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer yr unedau hyn. Felly, ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cwblhau cymhwyster Lefel 3 Diploma Cymhwysol yn haf 2021 a gofrestrwyd ar gyfer unedau Tystysgrif yn Haf 2020 gwblhau'r asesuadau hyn yn 2020/21, er y gallent ddewis gwneud hynny.

Mynegai'r pynciau

- Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Busnes
- Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Troseddeg
- Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Bwyd a Maeth
- Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lloegr yn unig)
- Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Feddygol
- Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Arfer Adeiladu Proffesiynol
- Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Twristiaeth

Lefel 3 Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Busnes

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster. Addaswyd yr amodau ar gyfer sefyll rhai o'r asesiadau. Gwnaed hyn er mwyn bod yn fwy hyblyg i'r canolfannau a rhyddhau amser ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol mewn Busnes yn haf 2020

Mae gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol yn 2020 ac a gofrestrwyd ar gyfer yr unedau Tystysgrif yn Haf 2020 yr hawl i gael canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer yr unedau Tystysgrif y byddent fel arfer wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn Haf 2020. Felly, ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cwblhau cymhwyster Lefel 3 Diploma Cymhwysol yn Haf 2021 a gofrestrwyd ar gyfer unedau Tystysgrif yn Haf 2020 gwblhau'r asesiadau hyn, er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Y Gyfundrefn: Goroesiad a Ffyniant – Arholiad Allanol (50% Tystysgrif, 25% Diploma)

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2: Marchnata Gweithredol – Asesiad dan Reolaeth (50% Tystysgrif, 25% Diploma)

Tynnir y gofyniad i oruchwylio ymgeiswyr drwy gydol yr asesiad. Dylid arwain ymgeiswyr i dreulio tua'r un nifer o oriau ar yr asesiad â'r hyn a nodir yn y briff. Bydd y terfyn geiriau o 3000 o eiriau yn aros.

Uned 3: Strategaethau a Gwneud Penderfyniadau mewn Cyfundrefn (Dewisol) – Arholiad Allanol (25% Diploma)

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 4: Strategaethau a Gwneud Penderfyniadau mewn Cyfundrefn Adwerthu (Dewisol) – Arholiad Allanol (25% Diploma)

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 5: Marchnadoedd a Chwsmeriaid – Asesiad dan Reolaeth (25% Diploma)

Tynnir y gofyniad i oruchwylio ymgeiswyr drwy gydol yr asesiad. Dylid arwain ymgeiswyr i dreulio tua'r un nifer o oriau ar yr asesiad â'r hyn a nodir yn y briff. Bydd y terfyn o 12 tudalen yn aros.

Gwybodaeth Ychwanegol

Drwy dynnu'r gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol gall y trefniadau asesu fod yn fwy hyblyg, gan ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau'r asesiad y tu allan i oriau ystafell ddosbarth wedi'u hamserlennu. Dylid rhoi arweiniad o hyd i ymgeiswyr i dreulio tua'r un faint o amser ar yr asesiad â'r hyn a nodir ym mriff yr asesiad.

Bydd gosod terfynau ar nifer y geiriau a'r tudalennau ar gyfer yr asesiadau'n sicrhau bod y dystiolaeth mae'r dysgwr yn ei chynhyrchu yn briodol i nifer y marciau sydd ar gael.

Gellid defnyddio'r amser a arbedir yn yr ystafell ddosbarth, gan nad oes angen i ganolfannau gynnwys asesiad dan oruchwyliaeth ar eu hamserlen, i gyflawni addysgu a dysgu ychwanegol.

Mae'r terfyn amser i gyflwyno dystiolaeth ar gyfer asesiadau dan reolaeth yn dal i fod ar 15 Mai 2021.

Atgoffir canolfannau mai rheolau sy'n berthnasol i Haf 2021 yn unig yw'r rhain. Byddai disgwyl i unrhyw ymgeiswyr sy'n dymuno ailsefyll yn 2022 gofrestru ar gyfer yr holl Unedau fel y cyhoeddir nhw yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu cyhoeddedig.

Lefel 3 Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Troseddeg

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster. Addaswyd yr asesu ar gyfer haf 2021 fel bod llai o gynnwys i'w asesu. Ar yr un pryd, bydd y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau, neu'r cymhwysedd ymarferol a nodir yn y fanyleb yn dal i gael eu mesur yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol mewn Troseddeg yn haf 2020

Mae gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol yn 2020 ac a gofrestrwyd ar gyfer yr unedau Tystysgrif yn Haf 2020 yr hawl i gael canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer yr unedau Tystysgrif y byddent fel arfer wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn haf 2020. Felly, ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cwblhau cymhwyster Lefel 3 Diploma Cymhwysol yn Haf 2021 a gofrestrwyd ar gyfer unedau Tystysgrif yn Haf 2020 gwblhau'r asesiadau hyn, er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesu Haf 2021

Uned 1: Newid ymwybyddiaeth o Drosedd – Asesiad dan Reolaeth (50% Tystysgrif, 25% Diploma)

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2: Damcaniaethau Troseddegol – Arholiad Allanol 25% (50% Tystysgrif, 25% Diploma)

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 3: O Leoliad y Drosedd i'r Llys – Asesiad dan Reolaeth (25% Diploma)

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 4: Trosedd a Chosb – Arholiad Allanol (25% Diploma)

Symleiddiwyd y cynnwys i'w asesu yn Haf 2021. Nid asesir y maes testun canlynol yn 2021:

- MPA3.3 y cyfyngiadau sydd ar asiantaethau o ran sicrhau rheolaeth gymdeithasol

Gwybodaeth ychwanegol

Rhaid cadw'r asesiad synoptig yn y cymhwyster, mae'n un o ofynion yr AA o ran Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol. Oherwydd hynny, ni allwn dynnu elfennau synoptig yr asesiad o'r Diploma mewn Troseddeg. Yn hytrach, tynnwyd y posibilrwydd o asesu MPA3.3 yn yr arholiad er mwyn ysgafnhau'r pwysau ar athrawon ac ymgeiswyr a sicrhau ar yr un pryd bod dealltwriaeth gynhwysfawr gan yr ymgeiswyr hynny o Ddeilliant Dysgu tri: mesurau a ddefnyddir ym maes rheolaeth gymdeithasol.

Mae'r terfyn amser i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer asesiadau dan reolaeth yn dal i fod ar 15 Mai 2021.

Atgoffir canolfannau mai rheolau sy'n berthnasol i Haf 2021 yn unig yw'r rhain. Byddai disgwyl i unrhyw ymgeiswyr sy'n dymuno ailsefyll yn 2022 gofrestru ar gyfer yr holl Unedau fel y cyhoeddir nhw yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu cyhoeddedig.

Lefel 3 Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Bwyd a Maeth

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster. Addaswyd y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu cyflwyno yn 2020/21.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Bwyd a Maeth yn haf 2020

Mae gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol yn 2020 ac a gofrestrwyd ar gyfer yr unedau Tystysgrif yn Haf 2020 yr hawl i gael canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer yr unedau Tystysgrif y byddent fel arfer wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn haf 2020. Felly, ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cwblhau cymhwyster Lefel 3 Diploma Cymhwysol yn haf 2021 a gofrestrwyd ar gyfer unedau Tystysgrif yn Haf 2020 gwblhau'r asesiadau hyn, er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesiadau yn 2020/21

Uned 1: Diwallu anghenion maethol grwpiau penodol – asesiad dan reolaeth ac arholiad allanol 50%

Tynnir y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) ar gyfer rhan o dasg 1 gan ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau ymchwil i seigiau i ddiwallu anghenion y grŵp cleientiaid a dadansoddiad maethol y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Tynnir yr angen am gyfweliad wyneb yn wyneb o dasg 3. Yn hytrach, gall ymgeiswyr gyflwyno'r dystiolaeth a gynhyrchwyd ganddynt wrth baratoi ar gyfer y cyfweliad a gall yr athro/athrawes ei defnyddio i gwblhau'r cofnod arsylwi.

Uned 2: Sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta – arholiad allanol 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 3: Arbrofi er mwyn datrys problemau cynhyrchu bwyd (dewisol) – asesiad dan reolaeth 25%

Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) yn cael ei dynnu ar gyfer tasg 1 – ymchwil i gynhyrchu bwyd, ac ar gyfer dadansoddiad synhwyraidd (blasu a phrofi) canlyniadau ymarferol yn nhasg 2.

Uned 4: Materion cyfredol o ran gwyddor bwyd a maeth (dewisol) – asesiad dan reolaeth 25%

Bydd y gofyniad am oruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) yn cael ei dynnu ar gyfer rhan gyntaf tasg 2, gwneud gwaith ymchwil.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd tynnu'r gofyniad i athrawon gynnal cyfweiliadau unigol â dysgwyr yn rhan o asesiad Uned 1 yn mynd i'r afael â phryderon ymbellhau cymdeithasol ac yn rhyddhau amser ychwanegol ar yr amserlen ar gyfer addysgu a dysgu.

Bydd tynnu'r gofyniad i gael goruchwyliaeth uniongyrchol o agweddau ar yr asesu dan reolaeth yn golygu bod trefniadau asesu'n fwy hyblyg gan ganiatáu i ymgeiswyr lunio tystiolaeth i'w hasesu y tu allan i oriau ystafell ddosbarth wedi'u hamserlennu. Gellir defnyddio'r amser a arbedir yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu ychwanegol.

Gellid cael amser addysgu ychwanegol ar gyfer cynnwys yr arholiad hefyd drwy leihau nifer y sesiynau ymarferol sydd gan ddysgwyr i ymarfer eu sgiliau paratoi bwyd. Gall hyn hefyd fod yn angenrheidiol o ran cadw at y gofynion ymbellhau cymdeithasol ac os na chaniateir aildefnyddio offer o fewn 72 awr.

Mae'r terfyn amser i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer asesiadau dan reolaeth yn dal i fod ar 15 Mai 2021.

Atgoffir canolfannau mai rheolau sy'n berthnasol i Haf 2021 yn unig yw'r rhain. Byddai disgwyl i unrhyw ymgeiswyr sy'n dymuno ailsefyll yn 2022 gofrestru ar gyfer yr holl Unedau fel y cyhoeddir nhw yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu cyhoeddedig.

Lefel 3 Diploma Cymhwysol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Canolfannau Lloegr yn unig)

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster. Addaswyd yr amodau ar gyfer sefyll rhai o'r asesiadau. Gwnaed hyn er mwyn bod yn fwy hyblyg i'r canolfannau a rhyddhau amser ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn haf 2020

Mae gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol yn 2020 ac a gofrestrwyd ar gyfer yr unedau Tystysgrif yn Haf 2020 yr hawl i gael canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer yr unedau tystysgrif y byddent fel arfer wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn haf 2020. Felly, ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cwblhau cymhwyster Lefel 3 Diploma Cymhwysol yn haf 2021 a gofrestrwyd ar gyfer unedau Tystysgrif yn Haf 2020 gwblhau'r asesiadau hyn, er y gallent ddewis gwneud hynny.

Uned 1 – Materion (Cyfoes) mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2 – Gwerthoedd craidd a gwasanaethau

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 3 (Dewisol) – Cyflogaeth o fewn y sectorau

Tynnir y gofyniad am reolaeth uchel (goruchwyliaeth uniongyrchol) o dasg 2. Yn ogystal, bydd y cynnwys i'w hasesu yn llai yn haf 2021. Gofynnir i ymgeiswyr werthuso ond y dulliau ymchwil hynny a ddefnyddiwyd ganddynt i gwblhau'r asesiad wrth ymateb i MPA3.1, MPA3.2 ac MPA3.4. Cyflwynwyd argymhelliad o nifer geiriau o tua 4,000 o eiriau fel ffordd o gynnig arweiniad pellach i ymgeiswyr ynghylch disgwyliadau tystiolaeth.

Uned 4 (Dewisol) – Profiad o glefyd, afiechyd ac anabledd

Tynnir y gofyniad am reolaeth uchel (goruchwyliaeth uniongyrchol) o dasg 2. Yn ogystal, bydd y cynnwys i'w hasesu yn llai yn haf 2021. Gofynnir i ymgeiswyr werthuso ond y dulliau ymchwil hynny a ddefnyddiwyd ganddynt i gwblhau'r asesiad wrth ymateb i MPA3.1, MPA3.2 ac MPA3.4. Cyflwynwyd argymhelliad o nifer geiriau o tua 4,000 o eiriau fel ffordd o gynnig arweiniad pellach i ymgeiswyr ynghylch disgwyliadau tystiolaeth.

Uned 5 – Ymddygiad a datblygiad dynol

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd tynnu'r gofyniad i gael goruchwyliaeth uniongyrchol o agweddau ar yr asesu dan reolaeth yn golygu bod trefniadau asesu'n fwy hyblyg gan ganiatáu i ymgeiswyr lunio tystiolaeth i'w hasesu y tu allan i oriau ystafell ddosbarth wedi'u hamserlennu. Gellir defnyddio'r amser a arbedir yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu ychwanegol.

Dylai canolfannau barhau i gynghori ymgeiswyr faint o amser y dylent ei dreulio ar bob tasg. Mae'r amseriadau hyn yn rhoi ystyriaeth i faint o dystiolaeth y byddai disgwyl i ymgeiswyr ei chynhyrchu a phwysoli'r dasg i'r asesiad ac i'r cymhwyster yn gyffredinol. Cyflwynwyd argymhelliad o nifer y geiriau ar gyfer yr asesiadau fel arweiniad ychwanegol i ymgeiswyr.

Mae'r terfyn amser i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer asesiadau dan reolaeth yn dal i fod ar 15 Mai 2021.

Atgoffir canolfannau mai rheolau sy'n berthnasol i Haf 2021 yn unig yw'r rhain. Byddai disgwyl i unrhyw ymgeiswyr sy'n dymuno ailsefyll yn 2022 gofrestru ar gyfer yr holl Unedau fel y cyhoeddir nhw yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu cyhoeddedig.

Lefel 3 Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Feddygol

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster. Addaswyd y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu cwblhau yn 2020/21.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol mewn Gwyddor Feddygol yn haf 2020

Mae gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol yn 2020 ac a gofrestrwyd ar gyfer yr unedau Tystysgrif yn Haf 2020 yr hawl i gael canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer yr unedau Tystysgrif y byddent fel arfer wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn Haf 2020. Felly, ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cwblhau cymhwyster Lefel 3 Diploma Cymhwysol yn haf 2021 a gofrestrwyd ar gyfer unedau Tystysgrif yn Haf 2020 gwblhau'r asesiadau hyn, er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesiadau yn 2020/21

Uned 1 Arholiad Allanol 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 2 Asesiad dan Reolaeth 12.5%

Bydd yr asesu yn 2021 yn cael ei symleiddio. Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau tasgau sy'n gofyn am waith ymarferol (MPA 3.2, 3.3). Bydd CBAC yn cyflenwi'r data sy'n ofynnol i gwblhau'r asesiad a bydd yn rhan o friff yr asesiad.

Uned 3 Asesiad dan Reolaeth 12.5%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 4 Asesiad dan Reolaeth 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 5 Asesiad dan Reolaeth (wedi'i farcio'n allanol) 12.5%

Bydd yr asesu yn 2021 yn cael ei symleiddio. Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau tasgau sy'n gofyn am waith ymarferol (MPA 2.2). Bydd CBAC yn cyflenwi'r data sy'n ofynnol i gwblhau'r asesiad a bydd yn rhan o friff yr asesiad.

Uned 6 Arholiad Allanol 12.5%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Gwybodaeth ychwanegol

Addaswyd y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu cwblhau yn 2020/21.

Bydd tynnu'r gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r gwaith ymarferol eu hunain yn unedau 2 a 5 yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ymbellhau cymdeithasol ac yn golygu bod amser ychwanegol ar gael yn yr ystafell ddosbarth i addysgu a dysgu. Os yw athrawon yn teimlo eu bod yn gallu rheoli gwaith ymarferol gan yr ymgeiswyr eu hunain, yna dylent wneud hynny. Bydd angen defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo, efelychiadau ac adnoddau priodol eraill fel ffordd o ddarparu profiad sylfaenol o ddulliau profi perthnasol gan y gellid asesu hyn yn yr arholiadau allanol ysgrifenedig.

Mae'r terfyn amser i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer asesiadau dan reolaeth yn dal i fod ar 15 Mai 2021.

Atgoffir canolfannau mai rheolau sy'n berthnasol i Haf 2021 yn unig yw'r rhain. Byddai disgwyl i unrhyw ymgeiswyr sy'n dymuno ailsefyll yn 2022 gofrestru ar gyfer yr holl Unedau fel y cyhoeddir nhw yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu cyhoeddedig.

Lefel 3 Diploma Cymhwysol mewn Arfer Adeiladu Proffesiynol

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster. Addaswyd y ffordd y bydd asesiadau'n cael eu cwblhau yn 2020/21.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol mewn Arfer Adeiladu Proffesiynol

Mae gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol yn 2020 ac a gofrestrwyd ar gyfer yr unedau yn Haf 2020 yr hawl i gael canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer yr unedau hyn y byddent fel arfer wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn haf 2020. Felly, ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cwblhau'r Diploma Cymhwysol yn haf 2021 a gofrestrwyd ar gyfer unedau yn Haf 2020 gwblhau'r asesiadau hyn, er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i unedau ac asesiadau yn 2020/21

Uned 1: Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig – Asesiad dan Reolaeth 20%

Tynnir y gofyniad am oruchwyliaeth o dasgau 2 a 3. Dylid rhoi arweiniad i ymgeiswyr o hyd i dreulio tua 14.5 awr ar y tasgau hyn. Rhaid cwblhau tasgau 1 a 4 dan oruchwyliaeth o hyd fel y cyhoeddwyd yn y deunyddiau asesu enghreifftiol.

Uned 2: Creu'r Amgylchedd Adeiledig – Arholiad Allanol 20%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 3: Gwerthfawrogi a Defnyddio'r Amgylchedd Adeiledig – Arholiad Allanol 20%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 4: BIM a Phrojectau Adeiladu – Asesiad dan Reolaeth 40%

Tynnir y gofyniad am oruchwyliaeth o dasgau 2, 3 a 4. Dylid rhoi arweiniad i ymgeiswyr o hyd i dreulio tua 34 awr ar y tasgau hyn. Rhaid cwblhau tasg 1 dan oruchwyliaeth o hyd fel y cyhoeddwyd yn y deunyddiau asesu enghreifftiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd tynnu'r gofyniad i gael goruchwyliaeth o agweddau ar yr asesu dan reolaeth yn golygu bod trefniadau asesu'n fwy hyblyg gan ganiatáu i ymgeiswyr lunio tystiolaeth i'w hasesu y tu allan i oriau ystafell ddosbarth wedi'u hamserlennu.

Dylai canolfannau barhau i gynghori ymgeiswyr faint o amser y dylent ei dreulio ar bob tasg. Mae'r amseriadau hyn yn rhoi ystyriaeth i faint o dystiolaeth y byddai disgwyl i ymgeiswyr ei chynhyrchu a phwysoli'r dasg i'r asesiad ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

Gellid defnyddio'r amser a arbedir yn yr ystafell ddosbarth, gan nad oes angen i ganolfannau gynnwys asesiad dan oruchwyliaeth ar eu hamserlen, i gyflawni gweithgareddau addysgu a dysgu ychwanegol.

Mae'r terfyn amser i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer asesiadau dan reolaeth yn dal i fod ar 15 Mai 2021.

Atgoffir canolfannau mai rheolau sy'n berthnasol i Haf 2021 yn unig yw'r rhain. Byddai disgwyl i unrhyw ymgeiswyr sy'n dymuno ailsefyll yn 2022 gofrestru ar gyfer yr holl Unedau fel y cyhoeddir nhw yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu cyhoeddedig.

Lefel 3 Tystysgrif a Diploma Cymhwysol mewn Twristiaeth

Does dim newidiadau i'r cynnwys a addysgir ar gyfer y cymhwyster hwn. Dylai canolfannau barhau i gyflwyno'r holl addysgu a dysgu sy'n ofynnol yn ôl y Fanyleb.

Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol mewn Twristiaeth yn haf 2020

Mae gan ymgeiswyr oedd ran o'r ffordd drwy eu cymhwyster Diploma Cymhwysol yn 2020 ac a gofrestrwyd ar gyfer yr unedau Tystysgrif yn Haf 2020 yr hawl i gael canlyniad wedi'i gyfrifo ar gyfer yr unedau Tystysgrif y byddent fel arfer wedi'u cofrestru ar eu cyfer yn haf 2020. Felly, ni fydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cwblhau cymhwyster Lefel 3 Diploma Cymhwysol yn haf 2021 a gofrestrwyd ar gyfer unedau Tystysgrif yn Haf 2020 gwblhau'r asesiadau hyn, er y gallent ddewis gwneud hynny.

Addasiadau i asesiadau yn 2020/21

Uned 1: Y Deyrnas Unedig fel Cynnyrch Twristiaeth – Arholiad Allanol 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon

Uned 2: Cyrchfannau Twristiaeth Byd-Eang – Asesiad dan Reolaeth 25%

Ni fydd yn ofynnol mwyach i gael goruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) yn y gweithgaredd ymchwil a chasglu gwybodaeth. Dylid rhoi arweiniad o hyd i ymgeiswyr dreulio tua tair awr yn ymgymryd â'r ymchwil.

Uned 3: Y Diwydiant Twristiaeth Dynamig – Arholiad Allanol 25%

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Uned 4: Cynllunio Digwyddiadau ac Amserlenni Teithio – Asesiad dan Reolaeth 25%

Tynnwyd y gofyniad i ymgeiswyr **reddeg** y digwyddiad yn Rhan A yr aseiniad.

Ni fydd yn ofynnol mwyach i gael goruchwyliaeth uniongyrchol (rheolaeth uchel) ar gyfer y gweithgaredd ymchwil a chasglu gwybodaeth yn Rhan B, Tasgau 2 a 3 o'r aseiniad. Dylid rhoi arweiniad o hyd i ymgeiswyr i dreulio tua dwy awr yn ymgymryd â'r ymchwil.

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd tynnu'r gofyniad i gael goruchwyliaeth uniongyrchol o agweddau ymchwil ar yr asesu dan reolaeth yn golygu bod trefniadau asesu'n fwy hyblyg gan ganiatáu i ymgeiswyr baratoi i gael eu hasesu y tu allan i oriau ystafell ddosbarth wedi'u hamserlennu. Bydd CBAC yn rhyddhau canllawiau pellach ynghylch y mathau o ymchwil sy'n dderbyniol i'w cymryd i mewn i'r amgylchedd asesu. Gellir defnyddio'r amser a arbedir yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu ychwanegol.

Tynnwyd y gofyniad i ymgeiswyr redeg digwyddiad o Uned 1 i ymdrin â materion posibl yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol. Gallai symleiddio'r asesiad fel hyn hefyd fod yn gyfle i gael amser addysgu a dysgu ychwanegol.

Mae'r terfyn amser i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer asesiadau dan reolaeth yn dal i fod ar 15 Mai 2021.

Atgoffir canolfannau mai rheolau sy'n berthnasol i Haf 2021 yn unig yw'r rhain. Byddai disgwyl i unrhyw ymgeiswyr sy'n dymuno ailsefyll yn 2022 gofrestru ar gyfer yr holl Unedau fel y cyhoeddir nhw yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu cyhoeddedig.